**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Y Bwrdd Pensiwn Lleol

**Ystafell Bwyllgor 6, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 13 Chwefror 2020 am 10.00 am**

**Yn Bresennol:** I Guy (Cadeirydd) fu'n llywyddu

**Cynrychiolwyr Cyflogwr**

| | |
|---|---|
| D Mackerras | T M White |

**Cynrychiolwyr Aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol**

| | |
|---|---|
| D White | R Broad |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeffrey Dong | Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog Adran 151 |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
***Cynrychiolwyr Cyflogwr***
Y Cynghorydd A Lockyer

---

## 29 Aelod Newydd y Bwrdd Pensiwn Lleol.

Croesawodd y Cadeirydd Rosemary Broad, GMB, i'w chyfarfod Bwrdd Pensiwn Lleol cyntaf.

## 30 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol: -

R Broad – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Swyddog Amser Llawn y GMB – personol.

I Guy – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

D Mackerras – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

D White – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

Y Cynghorydd T M White - yr agenda yn ei chyfanrwydd - Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac mae fy merch yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

**Swyddogion:**

J Dong – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

S Williams – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

J Parkhouse - yr agenda yn ei chyfanrwydd - Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Chofnod Rhif 34 - Adroddiad Blynyddol 2018/19 - Clerc Cyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf - personol.

## 31 Gwahardd y Cyhoedd: -

Gofynnwyd i'r Bwrdd wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhelliad/ion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) f/busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Bwrdd brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle roedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 32 Adroddiad yr Actiwari a Benodwyd.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn rhoi trosolwg o Brisiad Actiwaraidd Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe ar gyfer 2019.

Cyflwynodd Chris Darby o AON y Prisiad Actiwaraidd ar 31 Mawrth 2019 a ddarparwyd yn Atodiad 1. Gofynnodd y Bwrdd nifer o gwestiynau i gynrychiolydd AON, a ymatebodd yn briodol iddynt.

Gwnaethpwyd sylw hefyd y gellid rhoi adborth i aelodau'r Gronfa Bensiwn i amlygu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar eu rhan

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolydd AON am ddarparu'r adroddiad.

**Penderfynwyd** trafod anfon gohebiaeth ychwanegol at aelodau'r Gronfa Bensiwn ynghylch perfformiad y gronfa ar ddyddiad hwyrach.

**(Sesiwn Agored)**

## 33 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2019 fel cofnod cywir.

## 34 Adroddiad Blynyddol 2018/19.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe ar gyfer 2018/19.
Eglurwyd bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cwblhau ei harchwiliad o Adroddiad Blynyddol 2018/19 yn unol â'i chynllun archwilio a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn gynharach yn y flwyddyn. Darparwyd Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2018/19 yn Atodiad 1. Nododd y Bwrdd yr adroddiad cadarnhaol iawn.

## 35 Adroddiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' am bennu amcanion mesuradwy ar gyfer ymgynghorwyr buddsoddi penodedig fel sy'n ofynnol gan ofynion yr Awdurdod Cystadlaethau a Marchnadoedd (CMA).

Darparodd yr adroddiad ofynion CMA, pwysigrwydd yr amcanion, pennu amcanion ar gyfer ymgynghorwyr, mesur llwyddiant mewn arfer ac adrodd am gydymffurfio.

Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith nad oedd cyfeiriad at y Bwrdd Pensiwn Lleol yn Amcanion Perfformiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi yn Atodiad 1.

**Penderfynwyd** diwygio Amcanion Perfformiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi yn Atodiad 1 i gynnwys cyfeiriad at y Bwrdd Pensiwn Lleol drwy'r holl ddogfen.

## 36 Toriadau.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu manylion toriadau a gafwyd yn y cyfnod hwn yn unol â'r polisi Adrodd am Doriadau.

Yn Atodiad A darparwyd manylion y toriadau a gafwyd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd Pensiwn Lleol ym mis Hydref 2019. Amlygwyd manylion y toriadau a'r camau gweithredu a gymerwyd gan reolwyr.

Ychwanegwyd yr adroddir hefyd am unrhyw doriadau GDPR sy'n ymwneud â gwaith yr Is-adran Pensiynau yn y dyfodol.

## 37 Adnoddau'r Awdurdod Gweinyddol.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' am y gwelliannau argymelledig o ran darparu adnoddau a amlinellwyd

yn yr adroddiad. Esboniwyd y meysydd gwaith gwahanol yr oedd y Tîm Gweinyddu Pensiynau a Thîm Buddsoddi'r Gronfa Bensiwn yn ymgymryd â hwy.

Amlinellwyd y byddai rôl yr Uwch-swyddog Cyfathrebiadau Pensiwn yn cynorthwyo'r Is-adran Cyfathrebiadau Pensiwn wrth fynd i'r afael â galwadau'r gwasanaeth sy'n datblygu. Eglurwyd y byddai'r rôl yn cael ei llenwi drwy adnoddau mewnol, byddai proffil y rôl yn destun gwerthusiad swyddi ac y dywedir wrth yr adran AD briodol y byddai prosesau recriwtio a dethol yn cael eu defnyddio i benodi rhywun ar gyfer y rôl.

Yn ogystal, eglurwyd y byddai creu rôl Rheolwr Buddsoddi a Chyfrifo'r Gronfa Bensiwn a'i llenwi drwy ddefnyddio adnoddau presennol yn cynorthwyo Is-adran Buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn ac yn helpu i fynd i'r afael â llwyth gwaith cynyddol gymhleth. Yn dilyn hyn, byddai'r swydd yn cael ei gwerthuso, yr adran AD briodol yn cael ei hysbysu, a byddai prosesau recriwtio a dethol yn cael eu mabwysiadu er mwyn penodi rhywun i gyflawni'r rôl hon.

Gwnaed sylw gan y Bwrdd ynghylch llenwi'r swyddi mewn da bryd er mwyn cynorthwyo'r Is-adran Pensiynau.

## 38 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r Bwrdd wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhelliad/ion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) f/busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Bwrdd brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle roedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 39 Y Diweddaraf am Bartneriaeth Pensiwn Cymru.

Darparodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/ Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r Bwrdd am gynnydd rhannu asedau Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Roedd Atodiad 1 yn darparu'r cynnydd a'r adroddiad diweddaru a ddarparwyd gan weithredwr y Cynllun Cytundebol Awdurdodedig, Link Asset Services.

Yn y diweddariad cyfeirir at yr amserlen ar gyfer lansio cronfa incwm sefydlog cyfran 3. Mae hon wedi'i haildrefnu ac fe'i cynhelir bellach yn ystod Chwarter 1af 2020.

Ychwanegwyd bod hyfforddiant ar y cyd wedi'i drefnu ar gyfer pob aelod o Bwyllgor Cronfa Bensiwn Cymru Gyfan a'r Bwrdd Pensiwn Lleol ar ddiwedd Chwefror 2020 yn Llandrindod.

**Penderfynwyd** anfon manylion yr hyfforddiant ymlaen at Rosemary Broad, aelod newydd y Bwrdd Pensiwn Lleol.

## 40 Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi.

Roedd adroddiad 'er gwybodaeth' yr Ymgynghorydd Buddsoddi yn cyflwyno Adroddiad Monitro Buddsoddiadau 2019 - Chwarter 3.

Nododd y Bwrdd gynnwys yr adroddiad.

## 41 Adroddiad gan yr Ymgynghorydd Annibynnol.

Roedd yr adroddiad 'er gwybodaeth' yn cyflwyno diweddariad economaidd a sylwadau am y y farchnad o safbwynt Mr Noel Mills, yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol a benodwyd.

Atodwyd yr adroddiad chwarterol a ddaeth i ben ar 30 Medi 2019 yn Atodiad 1.

Ychwanegwyd bod Noel Mills, Ymgynghorydd Annibynnol wedi ymddeol o'i rôl a bod y cyngor yn ystyried ei opsiynau ar hyn o bryd o ran penodi rhywun yn ei le.

## 42 Crynodeb Buddsoddi.

Rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn cynnwys y perfformiad buddsoddi ar gyfer y chwarter, y flwyddyn a'r 3 blynedd a ddaeth i ben ar 30 Medi 2019.

Atodwyd crynodebau buddsoddi chwarterol y Gronfa Bensiwn ar gyfer y chwarter, y flwyddyn a'r 3 blynedd a ddaeth i ben ar 30 Medi 2019 yn Atodiad 1.

## 43 Bwrdd Pensiwn Lleol - Y Cyfarfod Nesaf.

Gofynnwyd a ellid symud cyfarfod nesaf y Bwrdd Pensiwn Lleol i fis Mai 2020 gan nad yw'r aelodau ar gael.

**Penderfynwyd** y bydd Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd yn cylchredeg dyddiad arfaethedig ar gyfer y cyfarfod nesaf ym mis Mai 2020.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.08 pm

**Cadeirydd**